Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EF

DA1TA

# Templed ar gyfer datganiad i gefnogi cais - os ydych chi'n gwneud cais ar ran yr unigolyn sydd i'w ddiogelu

## Cais am orchymyn diogelu rhag cam-drin domestig (DAPO), ffurflen DA1

Darllenwch y cyfarwyddyd sydd ar dudalen gyntaf y templed hwn yn ofalus.
Peidiwch ag argraffu neu gynnwys y dudalen gyntaf hon pan fyddwch yn cyflwyno eich datganiad a'ch cais.
Mae'r templed hwn wedi'i gynllunio i'ch helpu chi i ddarparu'r holl wybodaeth y mae'r llys ei hangen mewn datganiad i gefnogi cais. Rhaid i chi gyflwyno datganiad, ond nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r templed hwn os byddai'n well gennych ysgrifennu eich datganiad eich hun. Fodd bynnag, efallai y bydd y cyfarwyddyd hwn o gymorth i chi.

Dylech baratoi eich datganiad a llenwi ffurflenni **DA2 – Cais am ganiatâd i wneud cais am orchymyn diogelu rhag cam-drin domestig (DAPO)** a **DA1 – Cais am orchymyn diogelu rhag cam-drin domestig (DAPO)**, a mynd â nhw i'r llys rydych chi'n gwneud cais iddo neu eu hanfon drwy'r post neu e-bost.

1. Mae'r templed yn cynnwys datganiadau y mae'n rhaid i chi eu cwblhau drwy naill ai ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol neu drwy roi tic yn y blwch priodol.

2. Os nad ydych chi'n gwneud cais am orchymyn i ddiogelu eich cartref, yna ni ddylech roi tic yn y blwch perthnasol ar gychwyn y ffurflen a dylech hefyd adael yr adran honno yn wag.

3. Mae yna ddalen flaen templed ar dudalen olaf y ddogfen hon ar gyfer unrhyw arddangosyddion rydych yn eu cyflwyno. Dogfen arall yr hoffech i'r llys ei gweld fel rhan o'ch tystiolaeth yw arddangosyn. Gallai hyn fod yn:
    - adroddiadau meddygol
    - adroddiadau neu lythyrau gwasanaethau cymdeithasol
    - printiadau o negeseuon testun
    - negeseuon e-bost

Os nad ydych chi eisiau i'ch manylion cyswllt neu fanylion yr unigolyn sydd i'w ddiogelu gael eu rhannu â'r atebydd, peidiwch â chynnwys eich cyfeiriad neu unrhyw fanylion cyswllt eraill mewn unrhyw arddangosyddion.

**Dylech ond gynnwys y ddalen flaen arddangosyn os ydych chi'n cyflwyno arddangosyn, a rhaid cyflwyno dalen flaen wahanol ar gyfer pob un.**

Cewch ragor o gyfarwyddyd ar ochr dde pob tudalen wrth i chi gwblhau'r datganiad hwn.

 ©Hawlfraint y Goron 2024

# Dalen flaen datganiad i gefnogi cais

**I'w lenwi gan y llys**

Enw'r llys

Dyddiad cychwyn

Diwrnod Mis Blwyddyn

Rhif achos

Datganiad y ceisydd

Rhif y datganiad

Arddangosyddion

Dyddiedig

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw'r ceisydd (trydydd parti)

Enw'r atebydd

DATGANIAD CYNTAF Y CEISYDD

**Datganiad y ceisydd:**
Rhowch flaenlythrennau eich enw(au) cyntaf a'ch cyfenw, er enghraifft A B Smith.

**Rhif y datganiad:**
Os ydych chi'n gwneud un datganiad yn unig, rhowch '1' yma. Os ydych chi'n gwneud mwy nag un datganiad, rhowch y rhif perthnasol.

**Arddangosyddion:**
Nifer o arddangosyddion rydych yn eu hatodi. Gweler pwynt 3 ar y dudalen cyfarwyddyd.

**Dyddiedig:**
Rhowch ddyddiad paratoi'r datganiad.

**Ceisydd:**
Ysgrifennwch enw llawn yr unigolyn sy'n gweithredu ar ran yr unigolyn sydd i'w ddiogelu.

**Atebydd:**
Yr atebydd yw'r unigolyn rydych chi'n gofyn i'r llys wneud y gorchymyn yn ei erbyn. Ysgrifennwch eu henw llawn.

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Fy enw llawn yw

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

**1.2** Os ydych chi'n gwneud cais ar ran sefydliad, beth yw ei enw?

**1.3** Safle yn y sefydliad a natur y sefydliad (os yw'n berthnasol)

**1.4** Fy nghyfeiriad llawn yw

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

**Nodyn 1.4:** Os ydych chi wedi gofyn i'r llys gadw eich manylion cyswllt yn gyfrinachol drwy lenwi ffurflen C8, ysgrifennwch 'Mae fy nghyfeiriad yn gyfrinachol'.

**1.5** Enw'r unigolyn sydd i'w ddiogelu

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

**1.6** Eu cyfeiriad

Adeilad a stryd

[ ]

Ail linell y cyfeiriad

[ ]

Tref neu ddinas

[ ]

Sir (dewisol)

[ ]

Cod post

[ ]

**Nodyn 1.6:** Os ydych wedi gofyn i'r llys gadw manylion yr unigolyn sydd i'w ddiogelu yn gyfrinachol drwy lenwi ffurflen C8, ysgrifennwch 'Mae eu cyfeiriad yn gyfrinachol'

**1.7** Rwy'n gwneud y datganiad hwn i gefnogi fy nghais am orchymyn diogelu rhag cam-drin domestig yn erbyn yr atebydd a'i (h)enw llawn yw

Enw(au) cyntaf

[ ]

Enw(au) canol

[ ]

Cyfenw

[ ]

**1.8** Beth yw perthynas yr atebydd â'r unigolyn sydd i'w ddiogelu?

[ ]

**Nodyn 1.8:** Nodwch sut mae'r atebydd yn perthyn i'r unigolyn sydd i'w ddiogelu, er enghraifft, gŵr/gwraig, cariad neu cyn-gariad, partner neu cyn-bartner, rhiant neu nain/taid.

**1.9**

☐ Rwyf hefyd yn gwneud cais i ddiogelu'r cartref.

☐ Nid wyf yn gwneud cais i ddiogelu'r cartref. **Ewch i gwestiwn 1.11**

**1.10** Dylai'r gorchymyn diogelu rhag cam-drin domestig fod ar gyfer y cartref, a'r cyfeiriad yw

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Cod post

Rwyf wedi darparu rhagor o wybodaeth am y cyfeiriad yn y ffurflen amgaeedig **DA1 - Cais am Orchymyn Diogelu Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)**. Mae hyn yn cynnwys pwy sy'n byw yn y cyfeiriad a manylion am y berchnogaeth a/neu drefniadau'r denantiaeth.

**Nodyn 1.10:** Peidiwch ag ateb y cwestiwn hwn os nad ydych chi'n gwneud cais i ddiogelu mewn perthynas â chartref yr unigolyn sydd i'w ddiogelu.

**1.11** Os ydych chi'n gofyn am orchymyn heb rybudd, disgrifiwch yn eich geiriau eich hun pam rydych chi'n teimlo bod angen hyn

**Nodyn 1.11:** I weld y rhesymau y bydd y llys yn eu hystyried wrth benderfynu a dylid caniatáu eich cais heb rybudd, gweler cwestiwn 1.2 yn ffurflen DA1 – Cais am orchymyn diogelu rhag cam-drin domestig (DAPO).

## 2. Hanes y berthynas

**Nodyn 2:** Pan ofynnir am ddyddiadau yn yr adran hon, ceisiwch nodi dyddiadau penodol – ond gall hyd yn oed dyddiadau bras helpu, er enghraifft mis a blwyddyn.

Bydd hyn yn helpu'r llys i ddeall mwy am amgylchiadau'r unigolyn sydd i'w ddiogelu, felly rhowch yr wybodaeth os yw hynny'n bosib.

**2.1** Mae'r atebydd a'r unigolyn sydd i'w ddiogelu wedi adnabod ei gilydd ers

Diwrnod Mis Blwyddyn

**2.2** Pryd ddechreuodd eu perthynas a phryd daeth i ben?

Dechrau
Diwrnod Mis Blwyddyn

Dod i ben (os yn berthnasol)
Diwrnod Mis Blwyddyn

**2.3** Mae ymddygiad yr atebydd wedi

☐ newid ers i'r berthynas ddechrau

☐ wastad wedi bod yn ddifrifol. **Ewch i gwestiwn 2.5.**

**2.4** Y tro cyntaf i'r unigolyn sydd i'w ddiogelu sylwi bod ymddygiad yr atebydd wedi newid oedd ar neu oddeutu

Diwrnod Mis Blwyddyn

**2.5** Mae enghreifftiau o'u hymddygiad difrïol wedi cynnwys

- ☐ Bod yn dreisgar tuag at yr unigolyn sydd i'w ddiogelu, eu cam-drin yn rhywiol neu eu bygwth
- ☐ Eu poeni neu eu dychryn
- ☐ Eu rheoli neu eu gorfodi
- ☐ Defnyddio neu ddylanwadu ar y plant i'w cam-drin neu eu rheoli
- ☐ Eu cam-drin yn economaidd neu'n ariannol
- ☐ Cam-drin ar-lein megis postio neu gyhoeddi gwybodaeth amdanynt naill ai ar bapur neu'n ddigidol
- ☐ Eu cam-drin yn seicolegol neu'n emosiynol
- ☐ Cysylltu â nhw'n uniongyrchol neu drwy rhywun arall
- ☐ Cysylltu â'u cyflogwr neu eu lleoliad gwaith
- ☐ Achosi difrod i'w heiddo
- ☐ Achosi difrod i'w cartref
- ☐ Dod i mewn i'w cartref
- ☐ Dod yn agos at eu cartref
- ☐ Dod yn agos at eu lleoliad gwaith neu ysgol neu feithrinfa'r plant

Efallai y bydd mathau eraill o gamdriniaeth yr hoffech gynnwys. Gallwch roi mwy o fanylion ac enghreifftiau yn yr adrannau nesaf.

**Nodyn 2.5:** Dylech ddewis gymaint o'r ymddygiadau hyn ag y credwch sy'n berthnasol. Gall gynnwys camdriniaeth sydd wedi parhau ar ôl i'r berthynas ddod i ben.

Gall cam-drin economaidd neu ariannol gynnwys atal yr unigolyn sydd i'w ddiogelu rhag gweithio neu rwystro mynediad i gyfrif banc.

Rheolaeth drwy orfodaeth yw ymddygiad a allai fod yn fychanol, yn ynysig neu'n rheolaethol ac sy'n gwneud iddynt deimlo fel nad oes ganddynt ryddid neu annibyniaeth.

Gall cam-drin ar-lein fod yn: anfon negeseuon testun neu negeseuon e-bost bygythiol atynt; rheoli mynediad i'w ffôn, cyfrif e-bost neu fynd ar-lein; rhyng-gipio eu negeseuon e-bost neu negeseuon testun.

Ewch i GOV.UK a chwiliwch am 'domestic abuse: recognise the signs' am enghreifftiau o wahanol fathau o gam-drin domestig.

Mae'r 3 adran nesaf yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau penodol sydd wedi digwydd.

Os nad oes gennych chi enghreifftiau o ddigwyddiadau penodol ond bod yna batrwm o gamdriniaeth, ewch yn syth i adran 6 'Patrymau o gamdriniaeth neu ddigwyddiadau eraill'.

# 3. Y digwyddiad diweddaraf

**Nodyn 3:** Os yw'n bosibl, ceisiwch roi'r union ddyddiad pan ofynnir amdano yn yr adran hon.

**3.1** Mi ddigwyddodd/ddechreuodd y digwyddiad diweddaraf ar

Diwrnod Mis Blwyddyn

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**3.2** Mae'r digwyddiad hwn o ymddygiad difrïol

☐ wedi dod i ben

☐ yn parhau. **Ewch i gwestiwn 3.4.**

**3.3** Daeth y digwyddiad i ben ar

Diwrnod Mis Blwyddyn

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

**3.4** Manylion am y **digwyddiad diweddaraf.**

**Nodyn 3.4:** Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am ymddygiad yr atebydd.

**3.5** Effaith y digwyddiad hwn ar iechyd, diogelwch neu les yr unigolyn sydd i'w ddiogelu.

| |
|---|
| |

**Nodyn 3.5:** Disgrifiwch sut y mae'r digwyddiad hwn wedi effeithio ar yr unigolyn sydd i'w ddiogelu, ac unrhyw blant, gan roi cymaint o fanylion ag sy'n bosibl.

**3.6** Tystion a phobl a ddywedwyd wrthynt am y digwyddiad.

| |
|---|
| |

**Nodyn 3.6:** Dywedwch wrthym am unrhyw un a ddywedwyd wrthynt am y digwyddiad neu unrhyw un a oedd yn dyst i'r digwyddiad. Gall fod yn gyswllt personol megis aelod o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr. Gallai hefyd fod yn unigolyn proffesiynol megis swyddog heddlu neu feddyg.

Dylech gynnwys gyda'ch cais a'ch datganiad gopïau o unrhyw dystiolaeth berthnasol am y digwyddiad hwn, megis adroddiad heddlu, adroddiad meddygol, lluniau. **Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau i'r atebydd ei gweld.**

# 4. Y digwyddiad cyntaf

**4.1** Mi ddigwyddodd/ddechreuodd y digwyddiad cyntaf ar

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**4.2** Daeth y digwyddiad i ben ar

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**4.3** Manylion am y digwyddiad cyntaf

**Nodyn 4:** Os nad y digwyddiad diweddaraf yw'r tro cyntaf i'r gamdriniaeth ddigwydd, rhowch wybodaeth am y digwyddiad cyntaf rydych chi'n ymwybodol ohono.

Os yw'n bosibl, ceisiwch roi'r union ddyddiad pan ofynnir amdano yn yr adran hon. Ond gall hyd yn oed dyddiadau bras helpu, er enghraifft mis a blwyddyn.

**Nodyn 4.3:** Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am ymddygiad yr atebydd a sut y mae'r digwyddiad hwn wedi effeithio'r unigolyn sydd i'w ddiogelu, ac unrhyw blant.

**4.4** Tystion a phobl a ddywedwyd wrthynt am y digwyddiad.

**Nodyn 4.4:** Dywedwch wrthym am unrhyw un a ddywedwyd wrthynt am y digwyddiad neu unrhyw un a oedd yn dyst i'r digwyddiad. Gall fod yn gyswllt personol megis aelod o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr. Gallai hefyd fod yn unigolyn proffesiynol megis swyddog heddlu neu feddyg.

Dylech gynnwys gyda'ch cais a'ch datganiad gopïau o unrhyw dystiolaeth berthnasol am y digwyddiad hwn, megis adroddiad heddlu, adroddiad meddygol, lluniau. **Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau i'r atebydd ei gweld.**

## 5. Y digwyddiad gwaethaf

**Nodyn 5:** Rhowch fanylion y digwyddiad a gafodd yr effaith fwyaf ar yr unigolyn sydd i'w ddiogelu neu eu teulu.

Os yw'n bosibl, ceisiwch roi'r union ddyddiad pan ofynnir amdano yn yr adran hon. Ond gall hyd yn oed dyddiadau bras helpu, er enghraifft mis a blwyddyn.

Dylech ond ateb cwestiwn 5.2 i 5.6 os bu i chi ddewis 'digwyddiad arall' yng nghwestiwn 5.1.

**5.1** Y digwyddiad gwaethaf o gamdriniaeth oedd

☐ y digwyddiad diweddaraf. **Ewch ymlaen i Adran 6.**

☐ y digwyddiad cyntaf. **Ewch ymlaen i Adran 6.**

☐ digwyddiad arall

**5.2** Mi ddigwyddodd/ddechreuodd y digwyddiad gwaethaf ar

Diwrnod | Mis | Blwyddyn

**5.3** Daeth y digwyddiad i ben ar

Diwrnod | Mis | Blwyddyn

**5.4** Manylion am y **digwyddiad gwaethaf**

**Nodyn 5.4:** Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch am ymddygiad yr atebydd a sut y mae'r digwyddiad hwn wedi effeithio'r unigolyn sydd i'w ddiogelu, ac unrhyw blant.

**5.5** Tystion a phobl a ddywedwyd wrthynt am y digwyddiad.

**Nodyn 5.5:** Dywedwch wrthym am unrhyw a ddywedwyd wrthynt am y digwyddiad neu unrhyw un a oedd yn dyst i'r digwyddiad. Gall fod yn gyswllt personol megis aelod o'r teulu, ffrind neu gydweithiwr. Gallai hefyd fod yn unigolyn proffesiynol megis swyddog heddlu neu feddyg.

Dylech gynnwys gyda'ch cais a'ch datganiad gopïau o unrhyw dystiolaeth berthnasol am y digwyddiad hwn, megis adroddiad heddlu, adroddiad meddygol, lluniau. **Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau i'r atebydd ei gweld.**

# 6. Patrymau o gamdriniaeth neu ddigwyddiadau eraill

**6.1** Patrymau o gamdriniaeth hoffwn i'r llys ei ystyried

**Nodyn 6.1:** Gallwch ddefnyddio'r adran hon i ddisgrifio unrhyw batrwm o ymddygiad gan yr atebydd na ellir ei briodoli i ddigwyddiadau neu ddyddiadau penodol yn unig.

Gall hyn gynnwys ymddygiad rheolaethol parhaus.

Defnyddiwch ddalennau ychwanegol o bapur os oes angen.

**6.2** Ymddygiad difrïol arall hoffech i'r llys ei ystyried

**Nodyn 6.2:** Gallwch ddefnyddio'r blwch hwn i ddisgrifio unrhyw ymddygiad difrïol arall rydych eisiau dweud wrth y llys amdano, er enghraifft am ddigwyddiadau nad oedd yn rhan o batrwm, neu os nad ydych chi'n siŵr pryd oedd y digwyddiad cyntaf, gwaethaf neu ddiwethaf.

**6.3** Tystion a phobl a ddywedwyd wrthynt am yr ymddygiadau hyn.

# 7. Diogelu'r cartref

**Nodyn 7:** Llenwch yr adran hon os ydych chi'n gwneud cais i ddiogelu cartref yr unigolyn sydd i'w ddiogelu. Cofiwch gynnwys manylion eu benthyciwr morgais neu landlord ar y ffurflen gais. Os nad ydych chi'n gwneud cais am hyn, ewch i Adran 8 'Crynodeb'.

**7.1** Mae gan yr atebydd a'r unigolyn sydd i'w ddiogelu y cyfrifoldeb canlynol am y cartref - ticiwch un blwch yn unig

- ☐ cyfrifoldeb ar y cyd am forgais
- ☐ cyfrifoldeb ar y cyd am gytundeb tenantiaeth (rhent)
- ☐ mae'r unigolyn sydd i'w ddiogelu yn unig yn gyfrifol am forgais
- ☐ mae'r atebydd yn unig yn gyfrifol am forgais
- ☐ mae'r unigolyn sydd i'w ddiogelu yn unig yn gyfrifol am gytundeb tenantiaeth
- ☐ mae'r atebydd yn unig yn gyfrifol am gytundeb tenantiaeth
- ☐ nid oes gan yr unigolyn sydd i'w ddiogelu na'r atebydd gyfrifoldeb am forgais neu denantiaeth

**7.2** Mae gan yr unigolyn sydd i'w ddiogelu yr anghenion tai canlynol

| |
|---|
| |

**Nodyn 7.2:** Disgrifiwch beth yw anghenion tai yr unigolyn sydd i'w ddiogelu, gan gynnwys:

• gwybodaeth am deithio i'r gwaith ac adref o'r gwaith

• anghenion unrhyw blant maent yn gyfrifol amdanynt, megis nifer yr ystafelloedd gwely a pha mor agos yw'r cartref at eu hysgol

• ffactorau ariannol - er enghraifft, os oes gan yr unigolyn sydd i'w ddiogelu incwm isel, ni all fforddio symud neu mae ganddynt gytundeb rhent ffafriol gyda'r landlord

**7.3** Mae gan yr atebydd yr anghenion cartref canlynol

**Nodyn 7.3:** Disgrifiwch cystal ag y gallwch beth yw anghenion cartref yr atebydd, gan gynnwys:

- gwybodaeth am deithio i'r gwaith ac adref o'r gwaith
- unrhyw lefydd eraill rydych chi'n ymwybodol ohonynt
- lle allai'r atebydd aros, megis gydag aelod o'r teulu
- os ydych chi'n credu bod ganddynt y gallu i fforddio talu rhent yn rhywle arall a pham, megis mae ganddynt swydd sy'n talu'n dda
- anghenion cartref unrhyw blant maent yn gyfrifol amdanynt

**Nodyn 7.4:** Ticiwch bob un rydych eisiau gwneud cais amdano.

**7.4** Rwy'n gofyn i'r llys wneud gorchymyn a fyddai'n atal yr atebydd rhag gallu

- ☐ byw yn y cyfeiriad a nodwyd
- ☐ mynd i mewn i'r eiddo neu geisio mynd i mewn iddo
- ☐ mynd o fewn pellter penodol i'r eiddo
- ☐ atal yr unigolyn sydd i'w ddiogelu rhag dychwelyd i'r eiddo
- ☐ arall

# 8. Crynodeb

**8.1** Dyma fy nghrynodeb cloi

**Nodyn 8.1:** Yma dylech grynhoi eich rhesymau dros wneud cais ar ran yr unigolyn sydd i'w ddiogelu a chynnwys unrhyw wybodaeth nad ydych wedi'i rhoi yn barod y byddech yn hoffi i'r llys ei hystyried.

## Datganiad gwirionedd

**Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.**

☐ **Rwy'n credu** bod y ffeithiau a nodir yn y datganiad hwn, ac ar unrhyw ddalennau parhau, yn wir.

**Llofnod**

☐ Ceisydd

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Gallwch lofnodi'r datganiad hwn â llaw neu gallwch deipio eich enw os ydych chi'n ei gwblhau'n electronig.

**Rhaid cyflwyno'r datganiad hwn ar yr atebydd.**

Os ydych chi'n gwneud cais fel unigolyn, er enghraifft, perthynas neu ffrind yr unigolyn sydd i'w ddiogelu, ni ddylech gyflwyno'r datganiad ar yr unigolyn rydych chi'n gwneud cais i gael gorchymyn yn ei erbyn eich hun. Gweler y ffurflen gais am fwy o wybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch cyflwyno'r dogfennau.

## Ble i anfon eich datganiad ar ôl ei gwblhau

Anfonwch eich datganiad wedi'i gwblhau gyda ffurflen **DA1 - Cais am Orchymyn Diogelu Rhag Cam-drin Domestig (DAPO)**.
Gweler y cyfarwyddyd yn ffurflen DA1 am sut i anfon eich cais a'r datganiad tyst.

# Dalen flaen arddangosyn

**Defnyddiwch ddalen flaen wahanol ar gyfer pob arddangosyn.**

Rhif y datganiad

Arddangosyddion

Dyddiedig

Diwrnod Mis Blwyddyn

Rhif yr achos (i'w lenwi gan y llys)

Enw'r llys

Enw'r ceisydd

Enw'r unigolyn sydd i'w ddiogelu

Enw'r atebydd

Arddangosyn